

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Independent General Practice,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Independent General Practice, Caerdydd ar 27 Chwefror 2024.

Mae The Independent General Practice yn bractis preifat sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i unigolion, teuluoedd a busnesau at archwiliadau meddygol preifat, brechiadau, profion, gwasanaethau iechyd galwedigaethol, ffisiotherapi, cardioleg, cwnsela a gwasanaethau meddyg teulu preifat yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe neu ar-lein ledled y DU.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, adolygydd cymheiriaid clinigol meddygon teulu, adolygydd nyrsys practis ac adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 27 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod staff y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn dda iawn neu'n dda.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau y caiff posteri sy'n hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr eu gosod mewn manau mwy amlwg a bod yr hebryngwr yn cofnodi ei bresenoldeb yn nodiadau'r claf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwasanaeth a oedd yn canolbwyntio ar y claf
- Amgylchedd taclus a chroesawgar
- Hygyrchedd y gwasanaeth
- Cynnal preifatrwydd ac urddas
- Gwybodaeth i gleifion a chostau gwasanaethau wedi'u darparu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y tîm staff yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y cleifion ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

Yn ôl yr olwg, roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu'r gwasanaethau dan sylw.

Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon dda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Llundio polisi ar reoli rhybuddion diogelwch a digwyddiadau o bwys
- Sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac na ddefnyddir eitemau a gaiff eu rhagnodi i gleifion penodol fel eitemau stoc
- Ail-leoli'r troli adfywio mewn ardal ar wahân i'r ardal gymunedol neu brynu troli y gellir ei gloi er mwyn lleihau'r risg o ymyrraeth a niwed
- Trefnu i'r staff gweinyddol ymgymryd â hyfforddiant diogelu Lefel 1 gan ddarparu'r allanol
- Ystyried cyflwyno codau Read fel ffordd o fonitro cyflyrau meddygol cleifion ar y pryd
- Cynnal adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau cleifion
- Ystyried llunio polisi a gweithdrefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaeth meddygon teulu y GIG y tu allan i oriau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith wedi'u hategu gan bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig
- Nodiadau gofal cleifion trefnus a chdir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y gwasanaeth arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd yn ymddangos fod y practis yn cael ei reoli'n dda gan y Rheolwr Gweithrediadau. Yr unigolyn hwn oedd y rheolwr cofrestredig hefyd.

Roedd y tîm staff yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn ffordd gymwys. Roedd y tîm staff yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan y tîm arwain.

Gwelsom y staff yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda iawn fel tîm.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Roedd aelodau'r tîm clinigol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda gan y tîm rheoli
- Prosesau archwilio ac adrodd cadarn.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 27 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol, gyda'r ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (24/27) neu'n 'dda' (3/27).

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol am y lleoliad:

“Mynediad a lleoliad da. Cyfleusterau da. Amgylchedd cyfforddus a hamddenol.”

“Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan yr IGP yn rhagorol. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod i helpu. Mae'r meddygon yn dda iawn, maent bob amser yn barod i wrando ac mae bob amser yn bosibl cael apwyntiad ar yr un diwrnod.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain, drwy sicrhau bod cyngor hybu iechyd ar gael iddynt ar ffurf pamffledi a thaflenni yn yr ardal aros.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys archwiliadau meddygol preifat, brechiadau, profion, gwasanaethau iechyd galwedigaethol, ffisiotherapi, cardioleg, cwnsela a gwasanaethau meddyg teulu preifat.

Gall cleifion â mynediad i'r rhyngryd ddod o hyd i wybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael ar wefan y practis.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion. Nid oedd y practis yn cynnig gwasanaethau y tu allan i oriau.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob un o'r 27 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau ac wedi gwrando arnynt.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y broses.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Roedd posterï yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid gosod y posterï mewn manau mwy amlwg.

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y posterï sy'n hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr eu gosod mewn manau mwy amlwg.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â defnyddio hebryngwyr ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n cael cais i weithredu fel hebryngwr weithiau. Fodd bynnag, nid oedd wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i fod yn hebryngwr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, wblhaodd y rheolwr hyfforddiant ar-lein er mwyn bod yn hebryngwr yn ystod yr arolygiad.

Roedd cofnod yn nodiadau'r cleifion yn nodi eu bod wedi cael cynnig hebryngwr. Fodd bynnag, nid yw'r hebryngwr yn cofnodi ei bresenoldeb yn nodiadau'r claf fel mater o drefn.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hebryngwr yn cofnodi ei bresenoldeb yn nodiadau'r claf.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros ac roedd posibilrwydd y byddai eraill yn gallu clywed sgysiau a oedd yn cael eu cynnal wrth y ddesg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai ystafell ymgynghori ar gael pe byddai angen i gleifion drafod unrhyw beth yn gyfrinachol.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd drysau'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu gweld gan feddygon teulu neu staff gofal ieuchyd eraill, gan hyrwyddo eu preifatrwydd a'u hurddas. Nid oedd llenni preifatrwydd yn yr ystafelloedd ymgynghori y gellid eu defnyddio i roi preifatrwydd ychwanegol pan oedd cleifion yn cael archwiliad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod sgrin preifatrwydd symudol ar gael pe bai ei hangen. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli mewn ardal ar wahân i'r dderbynfa a'r ystafell aros, a oedd yn helpu i sicrhau nad oedd sgysiau'n cael eu clywed gan bobl yn yr ystafell aros.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion.

Cadarnhaodd archwiliad o sampl o nodiadau'r cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod yn y nodiadau meddygol pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a oedd wedi cael triniaeth (10/26) eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a'r risgiau a'r manteision.

Cawsom y sylw canlynol am ofal cleifion:

“Gwasanaeth gwych bob amser - wedi'i ddarparu gan dîm sydd wir yn dangos gofal tuag at ei gleifion - 10/10.”

Mae taflen wybodaeth i gleifion, sydd ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled, yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion, megis manylion cyswllt ac amseroedd agor y practis, y gwasanaethau a ddarperir, sut y gallai cleifion gofrestru, opsiynau o ran apwyntiadau, presgripsiynau, trosolwg o dîm y practis a thaliadau am wasanaethau.

Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn cael ei harddangos yn ddwyieithog. Roedd un o'r meddygon sy'n gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Roedd gan y practis ddolen sain weithredol er mwyn helpu'r staff i gyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiadau o'r cleifion er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth.

Rhoddir opsiynau i'r cleifion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn er mwyn iddynt ddewis pa wasanaeth sydd ei angen arnynt.

Gan fod y practis yn breifat, nid yw'n brysbennu nac yn llywio gofal at wasanaethau eraill fel mater o drefn.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben, y daflen wybodaeth i gleifion/y canllaw i gleifion a'r wybodaeth ar wefan y practis yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau cleifion.

Roedd lleoedd parcio ar gael yn uniongyrchol y tu allan i'r practis ac roedd mynediad da i'r brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer mynd ati i gael adborth gan gleifion, sef dosbarthu holiaduron blynyddol i'r cleifion. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd canlyniadau adborth cleifion yn cael eu cyhoeddi yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd y safle mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn unrhyw un o'r ardaloedd.

Roedd yr adeilad yn addas at y diben, a gwelsom ddogfennaeth helaeth yn cadarnhau bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a chleifion, wedi cael eu hystyried.

Gwelsom fod asesiad risg cyffredinol cyfredol ar waith, yn cwmpasu tân, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch, a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Dywedwyd wrthym fod rhybuddion diogelwch a hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys yn cael eu rhannu â'r staff drwy drafodaethau wyneb yn wyneb neu drwy anfon negeseuon ar Microsoft Teams/WhatsApp. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch a digwyddiadau o bwys ac nid oedd digwyddiadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar ôl chwe mis fel mater o drefn.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio polisi ar reoli rhybuddion diogelwch a digwyddiadau o bwys a sicrhau y caiff digwyddiadau o'r fath eu hadolygu ar ôl chwe mis fel mater o drefn.

Gwnaethom drafod yr angen am system galw frys yn yr ystafelloedd ymgynghori / trin. Aeth y rheolwr cofrestredig i'r afael â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad drwy lawrlwytho rhaglen gyfrifiadurol a fydd yn galluogi'r staff i ofyn am gymorth drwy bwysu botwm ar fysellfwrdd eu cyfrifiadur.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi rheoli heintiau manwl ar waith ac roedd un o'r nyrsys a oedd yn gweithio yn y practis wedi'i phenodi'n gyfrifol am oruchwylio prosesau atal a rheoli heintiau, cynnal archwiliadau rheolaidd a hwyluso hyfforddiant i'r staff.

Cwmni preifat oedd yn gyfrifol am lanhau'r practis ac roedd yr ardaloedd o'r practis a welsom yn lân yr olwg.

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan gan ymatebwyr am lendid y lleoliad. Roeddent naill ai'n cytuno bod y lleoliad yn 'lân iawn' (26/27) neu'n 'eithaf glân' (1/27).

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn naill ai'n llawn (22/26) neu'n rhannol (2/26). Nid oedd yr ymatebwyr eraill wedi sylwi.

Roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Roedd hylif diheintio dwylo hefyd ar gael yn hwylus o amgylch y practis. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos bod hyfforddiant rheoli heintiau yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff clinigol yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cynnig brechiad Hepatitis B i'r staff gweinyddol hefyd.

Dylai'r darparwr cofrestredig gynnig brechiad Hepatitis B i'r staff gweinyddol.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau/cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, nid oedd y bin gwastraff clinigol allanol wedi'i gloi nac wedi'i atodi'n sownd wrth wal y practis.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y bin gwastraff clinigol allanol ei atodi'n sownd wrth y wal a'i gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod trolïau a oedd ar agor ac a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol yn cael eu storio yng nghegin y staff. Mae hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff cyfarpar clinigol ei storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel.

Roedd cwpwrdd dan glo yn cael ei ddefnyddio i storio meddyginiaethau yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai meddyginiaethau, fel Lidocaine a Nexplanon, yn cael eu storio ar droli a oedd ar agor yng nghegin y staff. At hynny, gwelsom fod bocs o hydoddiant halwyn, a oedd wedi cael ei ragnodi ar gyfer claf penodol, yn cael ei ddefnyddio fel eitem stoc ar gyfer cleifion eraill.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ac na chaiff eitemau a gaiff eu rhagnodi ar gyfer cleifion penodol eu defnyddio fel eitemau stoc.

Roedd meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio mewn oergell wedi'i lleoli ar y llawr. Roedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro a'i gofnodi bob dydd gan ddefnyddio thermometr isafswm/uchafswm. Fodd bynnag, roedd rhai meddyginiaethau yn cael eu storio ar lawr yr oergell. Nid oedd hyn yn cydymffurfio â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 015, sy'n datgan na ddylai meddyginiaethau a gaiff eu storio mewn oergelloedd ddod i gysylltiad ag ochrau'r oergell. Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn a gymerodd gamau ar unwaith i ymdrin â'r sefyllfa.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant diogelu ar Lefel 3 ac roedd y staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant mewnol ar Lefel 1.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig drefnu i'r staff gweinyddol gael hyfforddiant diogelu Lefel 1 gan ddarparwr allanol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd.

Cadarnhawyd mai dim ond cyfarpar meddygol untro a gaiff ei ddefnyddio.

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod y troli adfywio heb ei gloi yn cael ei gadw mewn ardal gymunedol a oedd yn golygu y gallai'r cleifion fynd ato. Roedd y troli yn cynnwys cyffuriau brys a sisyrnau miniog.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ail-leoli'r troli adfywio mewn ardal ar wahân i'r ardal gymunedol neu brynu troli y gellir ei gloi er mwyn lleihau'r risg o ymyrraeth a niwed.

Roedd system ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Adfywio Cardiopwlmonaidd y DU.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y practis yn cael ei weithredu a chawsom wybod eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom sampl o gofnodion meddygol y cleifion, a oedd yn cael eu cadw ar ffurf electronig, ac roedd y cofnodion hynny yn drefnus iawn. Roedd y cofnodion a welwyd yn cynnwys manylion am y clinigydd a oedd yn creu'r cofnod ynghyd â digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd codau Read clinigol yn cael eu defnyddio fel system ar gyfer cofnodi cyflyrau meddygol cyffredinol a oedd yn cael eu nodi wrth weld cleifion, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau yn cael eu cynnal o'r broses ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cyflwyno codau Read fel ffordd o fonitro cyflyrau meddygol cleifion ar y pryd a chynnal adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'r cleifion.

Nid oedd unrhyw drefniant ffurfiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaeth meddygon teulu y GIG y tu allan i oriau. Er na fyddai angen hynny o bosibl mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r cleifion a oedd yn cael eu gweld yn y practis, byddai'n fuddiol pe bai datganiad polisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar waith pe byddai angen rhannu gwybodaeth o bryd i'w gilydd â'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried llunio polisi a gweithdrefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaeth meddygon teulu y GIG y tu allan i oriau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r darparwr cofrestredig yn gofyn barn y cleifion fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Rheoli cofnodion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal 11 o gleifion a gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith. Roedd y cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir pwy oedd wedi mewnbynnu'r nodiadau ar gyfer pob cysylltiad, y dyddiad y gwnaed pob cysylltiad a'r math o gysylltiad a wnaed, fel ymgynghoriad yn y feddygfa neu ymgynghoriad dros y ffôn. Roedd y cofnodion wedi cael eu cwblhau ar y pryd. Roeddent hefyd yn dangos bod cydsyniad dilys wedi'i gael, lle y bo'n briodol.

Roedd y cofnodion yn adlewyrchu'r gofal neu'r driniaeth a roddwyd a'r canfyddiadau perthnasol. Roedd alergeddau ac adweithiau andwyol hysbys cleifion i feddyginiaethau wedi'u nodi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roeddem yn fodlon ar drefniadau'r tîm rheoli ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth.

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Mae'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y practis ac yn ymgymryd â gwaith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir bob dydd.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith er mwyn sicrhau ffocws penodol ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal i'r cleifion.

Roedd yr aelodau o staff yn barchus a chwrtais. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn hynod ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Roedd y tîm rheoli a'r staff clinigol yn cynnal trafodaethau a sesiynau dadfrifio anffurfiol yn rheolaidd o ddydd i ddydd ac yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd mwy ffurfiol a oedd yn cael eu cofnodi.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom y staff yn gweithio ac yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd yn ystod yr arolygiad.

Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi gan eu cydweithwyr.

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion â rheolwr y practis ac yr eir i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a welsom yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cymryd camau gweithredol i ymdrin â bylchau o ran hyfforddiant gorfodol aelodau unigol o'r staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gwasanaethau meddygol/ymgyngori yn cael eu darparu, yn bennaf, gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r practis fel rhan o drefniadau contract ar gyfer sesiynau ffurfiol.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o'i berfformiad yn y gwaith. Roedd trefniadau ar waith rhwng y practis a'r byrddau iechyd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad ymarferwyr meddygol a'r trefniadau ar gyfer eu goruchwyllo a'u harfarnu.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gwelsom fod y person cofrestredig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod weithiau'n cael cais i weithredu fel hebryngwr. Fodd bynnag, nid oedd wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i fod yn hebryngwr.	Ni allai'r cleifion fod yn hyderus eu bod yn cael gofal gan staff cymwys sydd wedi cael hyfforddiant priodol.	Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr cofrestredig fod angen iddo gwblhau'r hyfforddiant ar gyfer bod yn hebryngwr.	Cwblhaodd y rheolwr hyfforddiant ar-lein ar gyfer bod yn hebryngwr yn ystod yr arolygiad.
Roedd rhai meddyginiaethau yn cael eu storio ar lawr yr oergell.	Nid oedd hyn yn cydymffurfio â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 015, sy'n datgan na ddylai meddyginiaethau a gaiff eu storio mewn oergelloedd ddod i gysylltiad ag ochrau'r oergell.	Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn.	Symudwyd y feddyginiaeth oddi ar lawr yr oergell i un o'r silffoedd.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Independent General Practice

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Independent General Practice

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y posteri sy'n hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr eu gosod mewn mannau mwy amlwg.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 16 a 18 Safon 10. Urddas a pharch Safon 11. Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Caiff y poster ar hebryngwyr sydd yn y dderbynfa ei ailddylunio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am sut i ofyn am hebryngwr yn gliriach i'r cleifion. Wedyn caiff y poster newydd ei osod yn lle'r poster presennol ar hebryngwyr.	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	Wedi'i gwblhau. Mae'r poster newydd bellach wedi'i osod ar y wal.

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hebryngwr yn cofnodi ei bresenoldeb yn nodiadau'r claf.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 15 (1) (b)</p> <p>Safon 8. Cynllunio a Darparu Gofal</p>	<p>Caiff y polisi hebryngwyr ei ddiweddarau i gynnwys y canlynol;</p> <p>a) rhaid i'r clinigydd sicrhau y caiff “enw llawn a rôl yr hebryngwr eu cofnodi yn nodiadau'r claf.”</p> <p>b) rhaid i'r hebryngwr wneud nodyn ar ffeil y claf er mwyn cofnodi ei bresenoldeb.</p>	<p>Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.</p>	<p>Wedi'i gwblhau. Mae'r polisi diwygiedig wedi ei gymeradwyo ac mae'n fyw ar y system. Mae hysbysiad wedi cael ei anfon at bob aelod o'r staff i'w hysbysu am hyn hefyd.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio polisi ar reoli rhybuddion diogelwch a digwyddiadau o bwys a sicrhau y caiff digwyddiadau o'r fath eu hadolygu ar ôl chwe mis fel mater o drefn.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 15 (10)</p> <p>Safon 7. Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Caiff polisiâu Rhybuddion Diogelwch a Digwyddiadau o Bwys eu creu gan sicrhau eu bod yn nodi y dylid eu hadolygu bob chwe mis fel mater o drefn.</p>	<p>Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.</p>	<p>4 wythnos</p>
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig gynnig brechiad Hepatitis B i'r staff gweinyddol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd</p>	<p>Caiff brechiadau Hepatitis B eu cynnig i bob aelod o'r staff</p>	<p>Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.</p>	<p>Wedi'i gwblhau. Mae pob aelod o'r staff</p>

	Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (8) Safon 13. Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	gweinyddol a chaiff y cynnig hwn ei ychwanegu at y rhestr wirio ar gyfer y cyfnod sefydlu er mwyn cynnwys aelodau newydd o staff gweinyddol.		gweinyddol wedi cael gwybod am y newid. Mae pob un wedi cael cynnig brechiad ac mae'r rhestr wirio ar gyfer y cyfnod sefydlu wedi cael ei diweddarau ar gyfer aelodau newydd o staff.
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y bin gwastraff clinigol allanol ei atodi'n sownd wrth y wal a'i gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.		Caiff plât llygad (<i>eye plate</i>) ei osod ar y wal allanol a chaiff y bin gwastraff clinigol ei atodi wrth y wal â chadwyn a chlo clwt.	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	Prynwyd y plât llygad, y gadwyn a'r clo. Disgwylir iddynt gael eu gosod gan yr adeiladwyr pan fydd y gwaith adeiladu i fyny'r grisiau yn dechrau. Mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn ystod y 4 - 6 wythnos nesaf
Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff cyfarpar clinigol ei storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.		Mae angen symud y trolïau clinigol o'r gegin, lle cânt eu storio ar hyn o bryd.	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	Wedi'i gwblhau. Mae'r trolïau wedi cael eu symud i'w storio yn yr ystafelloedd clinigol.

<p>Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ac na chaiff eitemau a gaiff eu rhagnodi ar gyfer cleifion penodol eu defnyddio fel eitemau stoc.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 15 (5)</p> <p>Safon 15. Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Sicrhau na chaiff unrhyw feddyginiaethau a ragnodir i glaf eu storio yn y practis.</p>	<p>Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.</p>	<p>Wedi'i gwblhau. Nodwyd mai gwall yn y broses o archebu'r feddyginiaeth benodol honno oedd yn gyfrifol am y ffaith bod eitem stoc ag enw penodol arni yn y storfa feddyginiaeth. Cafodd y mater ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad. Ni chaiff eitemau ag enwau penodol arnynt eu defnyddio na'u storio yn y clinig mwyach.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig drefnu i'r staff gweinyddol gael hyfforddiant diogelu Lefel 1 gan ddarparwr allanol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 16 (1)</p> <p>Safon 11. Diogelu plant a diogelu oedolion</p>	<p>Bydd pob aelod o'r staff gweinyddol yn cael hyfforddiant diogelu Lefel 1 gan ddarparwr allanol.</p>	<p>Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.</p>	<p>Wedi'i gwblhau. Mae pob aelod o'r staff gweinyddol wedi cofrestru â chwmni hyfforddi ACI er mwyn cwblhau hyfforddiant diogelu Oedolion a Phlant lefel 2. Mae staff gweinyddol Ffisiotherapi ac</p>

	sy'n agored i niwed			lechyd Galwedigaethol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant diogelu oedolion lefel 2 yn unig.
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ail-leoli'r troli adfywio mewn ardal ar wahân i'r ardal gymunedol neu brynu troli y gellir ei gloi er mwyn lleihau'r risg o ymyrraeth a niwed.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19 (1) (b) Safon 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Rydym wedi ystyried ail-leoli'r troli adfywio ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny. Rydym o'r farn mai'r lleoliad presennol yw'r lleoliad mwyaf effeithiol ar gyfer cael gafael ar y troli yn gyflym o unrhyw ystafell glinigol. Rydym wedi penderfynu prynu gorchudd codi syml ar gyfer y troli adfywio er mwyn sicrhau na all ymwelwyr sy'n cerdded heibio'r troli gael gafael ar yr eitemau yn hawdd.	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	Wedi'i gwblhau.
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cyflwyno codau Read fel ffordd o fonitro cyflyrau meddygol cleifion ar y pryd a chynnal adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'r cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (1)	Rydym wedi ystyried cyflwyno codau Read ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny. Rydym yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig sy'n cynnwys strwythur codau mewnol penodol	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	Wedi'i gwblhau.

	Safon 8. Cynllunio a Darparu Gofal	ar gyfer monitro cleifion. Byddwn yn trafod y system codau hon a gwelliannau posibl yn y cyfarfod rheoli clinigol nesaf.		
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried llunio polisi a gweithdrefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaeth meddygon teulu y GIG y tu allan i oriau.		Nid yw'r broses o rannu gwybodaeth â'r gwasanaeth y tu allan i oriau ac adrannau ehangach y GIG yn syml. Rydym yn ceisio gwella ein cysylltiadau â phartneriaid y GIG ac yn gweithio gyda gweithgor e- ragnodi'r GIG a rhanddeiliaid eraill i wella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau preifat a sefydliadau'r GIG. Caiff polisi ei greu i reoli a ffurfioli'r broses hon a fydd yn cynnwys cyfeiriad penodol at wasanaethau meddygon teulu y GIG y tu allan i oriau.	Kieran Reynolds / Rheolwr y Practis.	4 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Kieran Reynolds

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 02/05/2024